Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Trosolwg o Lywodraethu Sector Morol Cymru

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu trefniadau llywodraethu sector morol Cymru.



# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Llywodraethu 2

Cynllunio Morol yng Nghymru 4

Prosiectau Positif o ran Natur 9

Agregau Morol 12

Dyframaethu 15

Gweithrediadau amddiffyn 19

Carthu a Gwaredu 22

Ynni – Carbon Isel 26

Cynhyrchu Olew a Nwy 33

Pysgodfeydd 37

Porthladdoedd a Morgludiant 41

Ceblau Tanfor 46

Trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff 50

Twristiaeth a Hamdden 55


## YMWADIAD

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu trefniadau llywodraethu cynllunio morol sy'n gymhleth ac yn gallu newid wrth i bolisïau, deddfwriaeth a/neu ddehongliadau esblygu.

Caiff defnyddwyr eu cynghori'n gryf i gyfeirio at y ddeddfwriaeth wreiddiol berthnasol a/neu i gysylltu â'r gwneuthurwr penderfyniadau priodol mewn modd amserol, yn ogystal â cheisio eu cyngor arbenigol annibynnol eu hunain er mwyn sicrhau bod ganddynt y caniatâd angenrheidiol cyn dechrau unrhyw waith neu fuddsoddiad.

Er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a gyhoeddir yn y ddogfen hon yn gyfredol a chywir, nid yw ei chynnwys yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol na phroffesiynol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd am gamau gweithredu sy'n codi o'r defnydd ohoni.



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48141, ISBN digidol 978-1-83504-683-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cyflwyniad

Mae ein harfordiroedd a'n moroedd yn gwneud cyfraniad sylweddol i'n bywydau a'n lles. Mae Parth Morol Cymru yn dyblu maint Cymru. Gan ein bod yn genedl arfordirol, mae ein harfordiroedd, ein moroedd a'n treftadaeth bysgota yn rhan hanfodol o'n diwylliant a'n hiaith. Mae gan Gymru amgylchedd morol cyfoethog ac amrywiol sy'n cefnogi amrywiaeth enfawr o rywogaethau (gan gynnwys poblogaethau pwysig rhyngwladol o famaliaid morol ac adar) a chynefinoedd.

Mae ecosystemau morol sy'n wydn ac yn gyfoethog mewn bioamrywiaeth yn rhoi llawer o fuddion uniongyrchol ac anuniongyrchol i ni ac maent yn gartref i ystod o sectorau morol sy'n gweithredu yn ein moroedd. Rydym yn dibynnu ar ein moroedd fel ffynhonnell o fwyd iach, agregau ar gyfer adeiladu, ffordd o gludo a ffynhonnell ynni glân.

Fodd bynnag, mae'r amgylchedd morol ledled Cymru o dan bwysau o ystod o effeithiau gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a chynyddu gweithgarwch dynol. Mae angen rheoli ein gweithgareddau yn gynaliadwy. Os ydym am barhau i elwa o'n hecosystemau morol, rhaid i ni gymryd camau nid yn unig i'w cynnal ond hefyd i'w hadfer a'u gwella.  Mae'n bwysig bod gennym lywodraethu da i allu gwneud y penderfyniadau cywir i reoli ein hamgylchedd morol yn gynaliadwy.



## Beth yw Llywodraethu?

Mae'n golygu
Creu a defnyddio'r prosesau cywir
Ar gyfer
Gwneud a gweithredu penderfyniadau
Er mwyn
Sicrhau'r canlyniadau gorau i gymdeithas

## Beth yw Cynllunio Morol?

Mae Cynllunio Morol yn ymwneud â rheoli'r gofod yn ein moroedd mewn ffordd gydgysylltiedig, fel y gall pawb gael budd ohono.


Wrth i bob blwyddyn ddod â gweithgarwch o'r newydd, mae ein moroedd yn mynd yn brysurach ac felly mae'r angen am gynllunio yn cynyddu.

## Sut mae cynllunio morol yn cefnogi llywodraethu da?

Er mwyn sicrhau bod ein moroedd yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn amrywiol yn fiolegol:

- Mae'n rhaid i ni reoli ein hadnoddau naturiol, i ddiogelu ein bywyd môr a'n cynefinoedd naturiol.
- Mae'n rhaid i ni helpu'r busnesau sy'n dibynnu ar ein moroedd hefyd, e.e. porthladdoedd, pysgotwyr, twristiaeth, gwneuthurwyr tyrbinau, a'r holl ddiwydiannau cynnal a gwasanaethu sy'n eu cefnogi.

Mae'n anodd cael yr union gydbwysedd rhwng amddiffyn a defnyddio ein hamgylchedd morol, ac mae'n rhaid ystyried hynny'n ofalus cyn y gellir gwneud penderfyniadau ar gynigion sy'n effeithio ar ddyfodol ein moroedd.



## Mae cynllunio morol yn helpu i sicrhau llywodraethu da drwy gynorthwyo'r canlynol:

- Dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau (atebolrwydd)
- Rhannu gwybodaeth (tryloywder)
- Penderfyniadau cynhwysol, cytbwys ac effeithiol a
- Gosod fframwaith i adnabod a phennu blaenoriaethau ar gyfer ein moroedd

Mae cynllunio morol yn cyfrannu hefyd at fodloni'r 7 nod llesiant sy'n ofynnol yn gyfreithiol (statudol) a nodwyd yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a bodloni gofynion statudol **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.**

**Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn nodi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – dull o reoli adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru er mwyn sicrhau bod y buddiannau y maent yn eu darparu i'n llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gael nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.




Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru heddiw gan sicrhau'r un pryd bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu diwallu.

## Er mwyn helpu i lywodraethu ardaloedd morol Cymru’n dda, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.**


Mae’r Cynllun hwn yn llywio datblygiad cynaliadwy **ardal forol Cymru**.

Mae’r cyfan yn ymwneud â rheoli ein moroedd yn ofalus drwy helpu i sicrhau bod y gweithgareddau cywir yn digwydd yn y lle cywir ar yr adeg gywir.

Mae ymgysylltu cynnar yn hanfodol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr eraill y môr a sectorau eraill yn ymwybodol o gynigion fel y gellir lleihau effeithiau posibl lle y bo modd.

### Ardal forol Cymru

- Ardal forol y glannau (o fewn 12 milltir fôr i arfordir Cymru)
- Ardal forol y môr mawr (y tu hwnt i 12 milltir forol o arfordir Cymru)



## Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru:

- Bydd yn llywio **datblygiad cynaliadwy** ardal forol Cymru.
- Mae'n cynnwys polisïau i roi arweiniad i ymgeiswyr sy'n dymuno cynnig gweithgaredd neu ddatblygiad o fewn ardal forol Cymru ac i **wneuthurwyr penderfyniadau** sy'n ystyried prosiectau o'r fath.
- Mae'n cefnogi gweledigaeth gyffredin y DU o gefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol.
- Mae'n golygu bod rhaid i ni feddwl am y berthynas rhwng natur a phobl yn yr hirdymor.
- Mae'n ein hannog i feddwl am ffyrdd o wneud ein hecosystemau yn fwy gwydn.
- Mae'n hyrwyddo cydnawsedd rhwng gwahanol weithgareddau er mwyn helpu i leihau gwrthdaro.
- Mae wedi'i ddatblygu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd, gyda'n canfyddiadau'n cael eu hadrodd bob 3 blynedd.

## Er mwyn ein helpu i ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i adlewyrchu buddiannau gorau pawb rydym:

- wedi cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau sydd â buddiant mewn ardaloedd morol yng Nghymru
- wedi trafod gyda chydweithwyr yn Llywodraethau Cymru a'r DU
- wedi edrych ar dystiolaeth ac ymchwil
- wedi ystyried yr holl oblygiadau, sy'n cynnwys: ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.


## Deddfwriaeth (Y gyfraith)

Mae'n rhaid i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru gael ei ddefnyddio gan unrhyw awdurdod cyhoeddus y mae'n ofynnol iddo wneud penderfyniadau a allai effeithio ar ardal forol Cymru.


**Datblygu cynaliadwy** yw'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.



**Gwneuthurwyr penderfyniadau** yw awdurdodau cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol.



Amgylchedd naturiol yw **ecosystem** ac mae'n cynnwys y fflora (planhigion) a'r ffawna (anifeiliaid) sy'n byw ac yn rhyngweithio yn yr amgylchedd hwnnw.



## Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn amlinellu'r canlynol:

- Polisïau cyffredinol: mae'r rhain yn gyffredinol ac yn drawsbynciol ac yn ymdrin â meysydd fel gwarchod natur, treftadaeth a thwf economaidd.
- Polisïau penodol ar gyfer sectorau penodol sy'n defnyddio ardal forol Cymru.

Gyda'i gilydd mae polisïau Cyffredinol a pholisïau ar gyfer Sectorau yn cefnogi datblygiad cynaliadwy moroedd Cymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

### Y sectorau yw:

- Agregau
- Dyframaethu
- Amddiffyn
- Carthu a Gwaredu
- Ynni – Carbon Isel
- Ynni – Olew a Nwy
- Pysgodfeydd
- Porthladdoedd a Morgludiant
- Ceblau Tanfor
- Dŵr wyneb a Dŵr gwastraff
- Twristiaeth a Hamdden

Yn ogystal â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, mae amrywiaeth eang o strategaethau, polisïau a deddfwriaeth eraill yn llywio'r defnydd o ardal forol Cymru.

## Deddfwriaeth a Pholisi

Mae **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** yn nodi'r sail gyfreithiol a'r gofynion ar gyfer cynllunio morol.

**Datganiad Polisi Morol y DU 2011** yw'r fframwaith ar gyfer paratoi Cynlluniau Morol a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol yn y DU. Mae'n hyrwyddo gweledigaeth gyffredin y DU o gael cefnforoedd a moroedd 'glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol'.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** yn diffinio datblygu cynaliadwy ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gwblhau gwaith datblygu cynaliadwy er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'n rhaid cymhwyso'r 7 nod llesiant canlynol i bob cynnig.

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo gwytnwch ecosystemau a gwella bioamrywiaeth drwy ddilyn egwyddorion "rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy".

### Mae Cynlluniau Morol a dogfennau cysylltiedig yn cyfrannu at lywodraethu da ac yn cynnwys:

- Animeiddiad Cynllunio Morol
- Trosolwg o Gynllunio Morol yng Nghymru a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- Porth Cynllunio Morol Cymru
- Penderfyniadau ynghylch Trwyddedau Morol: ffeithlun
- Trosolwg o'r Broses Gydsynio Ynni Adnewyddadwy Morol: ffeithlun
- Cynllunio ar y Mor a'r Tir yng Nghymru: ffeithlun
- Ystyried cynlluniau morol wrth ystyried caniatâd cynllunio ar y tir: ffeithlun
- Rheoli Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy: pecynnau tystiolaeth
- Canllawiau Lleoliadol ar gyfer Sectorau.

## Mae’r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn cynnwys:

### Datganoli

- Yn cael ei roi ar waith drwy drosglwyddo pŵer gwneud deddfwriaethau (cyfreithiau) o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru.
- Mae trosglwyddo pŵer yn golygu y gall Llywodraeth Cymru wneud deddfwriaeth sy’n berthnasol i’r pŵer hwnnw.
- Nid yw’r holl weithgareddau yn y sectorau sydd wedi’u cynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi’u datganoli’n llawn i Lywodraeth Cymru. Mae rhai sectorau wedi’u datganoli’n rhannol yn unig ac mae eraill wedi’u cadw’n ôl gan Lywodraeth y DU.
- Bydd angen dilyn trefniadau llywodraethu Llywodraeth y DU ar gyfer y sectorau sydd wedi’u cadw’n ôl a’u datganoli’n rhannol.

### Cyfoeth Naturiol Cymru


Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy’n sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal a’u defnyddio’n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

### Trwydded Forol

Mae angen trwydded forol oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau yn ardal forol Cymru. Fel arfer mae’r trwyddedau’n cynnwys amodau a gofynion. Rhaid i’r rhain gael eu dilyn gan ddeiliaid trwyddedau i ddangos eu bod yn cydymffurfio â’r amodau a rhaid iddynt roi gwybod eu bod yn gwneud hynny.

### Ystad y Goron

Busnes masnachol annibynnol a grëwyd gan Ddeddf Ystad y Goron 1961 i reoli rhai o asedau’r DU. Mae’r asedau hynny’n cynnwys y rhan fwyaf o wely’r môr a’r blaendraethau (y tir rhwng llanw uchel ac isel) yng Nghymru. Pan fo Ystad y Goron yn rheoli gwely’r môr a’r blaendraeth, mae’n rhoi hawliau tirfeddianwyr i bartïon â buddiant er mwyn iddynt fedru defnyddio ardal at ddiben penodedig.



## Prosiectau Positif o ran Natur

### Cyflwyniad

Gwella yw'r term a ddefnyddir yng Nghymru i ddiffinio gweithredoedd sy'n anelu at wella ansawdd, maint neu ardal cynefin neu rywogaeth. Gall ecosystem forol wydn ddarparu llawer o fanteision i'r amgylchedd a'n cymdeithas.

Mae ein polisi cynllunio morol yng Nghymru yn annog cynnwys gwella fel rhan o gynnig ar gyfer datblygu lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol. Er enghraifft, defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur mewn prosiectau amddiffyn arfordirol neu drwy ychwanegu nodweddion gwella at seilwaith er budd bioamrywiaeth.

Gellir gwella hefyd trwy brosiectau adfer annibynnol, er enghraifft plannu morwellt ar hyd yr arfordir neu ailgyflwyno gwelyau wystrys brodorol. Mae prosiectau fel y rhain, ochr yn ochr â rheolaeth ofalus ar ddefnyddio a datblygu ein moroedd, yn ffordd bwysig o helpu i adfer gwydnwch ein hecosystemau morol.

Mae angen i gamau gweithredu cadarnhaol natur, fel y prosiectau sy'n digwydd ym Moroedd Cymru hefyd fod yn destun llywodraethu da. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r buddion amgylcheddol rydym eu heisiau heb effeithio ar bethau eraill fel anghenion defnyddwyr eraill y môr neu amcanion cynllun morol.

## Crynodeb Llywodraethu

Bydd y caniatâd a/neu'r trwyddedau penodol sydd eu hangen yn dibynnu ar natur a graddfa'r prosiect a'i leoliad, a gallent gynnwys:

- **Trwydded Forol** gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer prosiectau islaw lefel cymedrig y llanw dŵr uchel (MHWS) allan i 200nm.
- Caniatâd cynllunio o dan y **Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref** ar gyfer prosiectau ar yr arfordir i lawr i lefel Llanw Cymedr Trai'r Gorllanw Mawr (MLWS).
- **Caniatâd perchennog tir** er enghraifft Ystâd y Goron neu dirfeddiannwr preifat.

### Cyngor:

Fel y Corff Cadwraeth Natur Statudol (CCNS) a chynghorydd Llywodraeth Cymru ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gall Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddarparu cyngor ac arweiniad ar gynigion ar gyfer prosiectau gwella ac adfer neu i ymgorffori'r elfennau hyn mewn prosiect datblygu. Anogir yn gryf i gysylltu'n gynnar â CNC fel yr CCNS a'r Rheoleiddiwr.

## Deddfwriaeth a Pholisi

Mae rheolaeth yr amgylchedd yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru.

Mae **Datganiad Polisi Morol y DU 2011** yn cydnabod gwerth economaidd, cymdeithasol a chynhenid amgylchedd morol iach ac ymrwymiad Gweinyddiaethau'r DU i atal colli bioamrywiaeth a'i adfer i'r graddau y bo'n ymarferol.


O dan y pennawd "Byw gyda Therfynau Amgylcheddol", mae **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** yn nodi cyfres o bolisïau sy'n "hyrwyddo amddiffyn a gwella'r amgylchedd morol er mwyn sicrhau bod gan Gymru ecosystemau morol gwydn a all ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol". Mae Polisi ENV_01 a nodir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn dweud y dylai cynigion ddangos sut mae effeithiau posib ar ecosystemau morol wedi eu hystyried. Anogir cynigion sy'n cyfrannu at wella ecosystemau morol.

Mae'r **Polisi Adnoddau Naturiol** yn tynnu sylw at yr angen i weithredu i nodi a chefnogi cyfleoedd ymarferol i adfer ecosystemau, gwireddu buddion i gymunedau arfordirol a sicrhau manteision lluosog o ddatblygiad cynaliadwy yr ardal forol.


Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau sy'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn berthnasol ar gyfer prosiectau arfordirol i lawr i MLWS gan gynnwys gofyniad i sicrhau budd bioamrywiaeth net.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio i gefnogi prosiectau sy'n gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau morol trwy gynllunio morol a pholisi trwyddedu morol. Mae gan bob un o'r sectorau a gwmpesir gan y ddogfen hon ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi gwytnwch ecosystemau morol.



# Y prif gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu'r sector morol



## Agregau Morol


Y mathau gwahanol o dywod a graean a geir ar wely'r môr yw agregau. Maen nhw'n adnoddau naturiol morol sydd â therfyn arnynt ac nid ydynt yn eu hadnewyddu eu hunain.


Mae'r broses o dynnu agregau o wely'r môr yn cael ei alw'n 'carthu'.

## Ar gyfer beth y mae Agregau Morol yn cael eu defnyddio?

### Yn bennaf:

- gwaith adeiladu cyffredinol
- prosiectau seilwaith (h.y. porthladdoedd, ffyrdd, datblygiadau ynni, amddiffyn yr arfordir ac ati)
- gwaith i adfer traethau; ac
- adfer tir.





## Crynodeb Llywodraethu

Rhaid cael trwydded forol oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n rhaid cael cydsyniad y tirfeddianwyr (Ystad y Goron gan amlaf). Yn gyffredinol, bydd trwydded forol yn golygu y gellir cloddio am uchafswm o 15 mlynedd, ond gan ailedrych ar y sefyllfa bob pum mlynedd.

Mae Ystad y Goron yn cyhoeddi cytundebau archwilio ac opsiynau er mwyn i i weithredwyr fedru cynnal profion ac ymchwilio i weld a oes modd mynd at yr agregau masnachol. Maen nhw hefyd yn rhoi cytundebau cynhyrchu unwaith y bydd trwydded forol wedi'i rhoi.

Ers 1993, mae wedi bod yn ofynnol i bob cwch sy'n ymwneud â gweithrediadau cloddio agregau morol yn nyfroedd Cymru weithredu System Fonitro Electronig. Mae'r system yn cofnodi'n awtomatig ddyddiad, amser a safle'r cwch pan fydd yn carthu; a thrwy hynny'n darparu data diogel ar leoliad gweithgareddau cloddio.

Mae Ystad y Goron yn adolygu'r data'n fisol er mwyn sicrhau bod gweithrediadau carthu yn digwydd yn y lleoliad cywir ac yn flynyddol i gadarnhau faint o ddeunydd sydd wedi'i lanio.

Trwy fonitro, gellir rheoli effeithiau'n ofalus.

## Deddfwriaeth a Pholisi

Mae'r gwaith o reoli Agregau yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru.


Caiff y diwydiant agregau morol ei reoleiddio gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 yn cydnabod bod tywod a graean morol yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddiwallu'r galw am ddeunyddiau adeiladu yng Nghymru. Mae'r diwydiant agregau'n esgor ar fanteision cymdeithasol ac economaidd ehangach hefyd gan gynnwys swyddi medrus a sefydlog ac incwm a gaiff ei greu drwy gadwyn gyflenwi'r diwydiant adeiladu.

Amcan Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar gyfer y sector yw parhau i ddefnyddio adnoddau agregau morol ar gyflymder ac mewn lleoliadau sy'n diwallu'n hanghenion presennol, a'n hanghenion yn y dyfodol, yn y ffordd orau, gan wneud hynny drwy ddefnyddio trwyddedau hirdymor i sicrhau bod digon o'r adnoddau hynny ar gael wrth gefn.

## Agregau


Y prif gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu Agregau.



## Dyframaethu

Mae gweithgareddau dyframaethu yn cynnwys bridio, magu, tyfu neu ffermio unrhyw bysgod, pysgod cregyn, algâu morol (h.y. gwymon) neu unrhyw anifail, planhigyn neu organeb ddyfrol arall mewn dŵr.

Mae ar fusnesau dyframaethu angen amodau dŵr glân ac iach. Mae'r ffaith bod y busnesau hyn yn bodoli yn ysgogi gwaith i gynnal, i wella ac i fonitro ansawdd dŵr ac mae hynny, yn ei dro, o fudd i wytnwch ecosystemau, i ddefnyddwyr eraill yn môr, ac i dwristiaeth.



## Crynodeb Llywodraethu

Mae'r broses ar gyfer sefydlu a rhedeg busnes dyframaethu yng Nghymru yn dibynnu ar y rhywogaethau dan sylw, y dull o ffermio a'i leoliad (e.e. rhynglanwol, ar y môr mawr neu mewn harbwr) ac felly mae angen amrywiaeth o gydsyniadau a/neu drwyddedau penodol.

Mae **Pecyn Cymorth Rheoleiddio Dyframaethu** ar gyfer Cymru yn cynnwys rhagor o wybodaeth.

Gall Gweinidogion Cymru roi 'gorchmynion' sy'n rhoi pwerau i fusnesau (y grantïon) gyfyngu ar bysgota mewn pysgodfa pysgod cregyn sydd o fewn 6 milltir fôr i'r lan.

Gall busnesau wneud cais i Weinidogion Cymru am y canlynol:

- Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol – i sefydlu perchnogaeth breifat a meithrin pysgod cregyn er eu budd economaidd eu hunain gan atal y cyhoedd rhag gwneud hynny; neu
- Gorchmynion Rheoleiddio – i reoleiddio pysgodfa naturiol drwy roi trwyddedau cyfyngedig sy'n caniatáu i ddeiliaid trwyddedau bysgota am bysgod cregyn gan atal y cyhoedd rhag gwneud hynny.

Rhaid i gynhyrchion nad ydynt yn dod o anifeiliaid, yn cynnwys pysgod, fod yn ddiogel i'w bwyta a chael eu cludo heb blâu a chlefydau. Mae safonau iechyd yn cynnwys gofyniad bod cynhyrchion pysgod cregyn yn cael eu profi a'u categoreiddio a bod gwiriadau cynnyrch yn cael eu gwneud gan nifer o gyrff rheoleiddio.

Mae **cyrff rheoleiddio** yn sefydliadau cyhoeddus neu'n asiantaethau llywodraeth sy'n gyfrifol am reoli agweddau ar weithgareddau yn ôl y gyfraith.

Bydd ar weithgareddau dyframaethu, yn cynnwys y gwaith o osod strwythurau ar wely'r môr, angen prydles neu drwydded gan Ystad y Goron neu gytundeb tirfeddianwyr eraill yn dibynnu ar y lleoliad. Mae angen trwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ar gyfer strwythurau sy'n gysylltiedig ag unrhyw rywogaethau pysgod, pysgod cregyn neu algâu morol (h.y. gwymon) a'r broses o'u ffermio.

Yn ogystal â'r cydsyniadau sydd eu hangen ar gyfer pob gweithgaredd dyframaethu, mae'n ofynnol i ddatblygiadau algâu morol (h.y. gwymon) gael eu cofrestru gyda'u Swyddfa Arolygiaeth Iechyd Planhigion leol.

Mae gan Dŵr Cymru ddiddordeb mewn cynigion a allai effeithio ar wasanaethau dŵr a charthffosiaeth neu a allai gael eu heffeithio gan eu gweithrediadau.

Os defnyddir ardaloedd morol Cymru fel meysydd hyfforddi milwrol, rhaid cael cymeradwyaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Deddfwriaeth a Pholisi


Mae'r gwaith o reoli dyframaethu wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru.

Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 yn nodi'r rheolau, y cyfrifoldebau a'r prosesau cyfreithiol ar gyfer dyframaethu.

Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 yn cefnogi ac yn annog datblygiad diwydiannau dyframaethu effeithlon, effeithiol, cystadleuol a chynaliadwy, yn amodol ar amddiffyniadau llywodraethu ac amgylcheddol addas.


Amcan Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019 ar gyfer y sector yw hwyluso datblygiad dyframaethu cynaliadwy yn nyfroedd Cymru, gan gynnwys hyrwyddo busnesau arloesol a chadwyni cyflenwi cysylltiedig ar gyfer pysgod asgellog, pysgod cregyn ac algâu morol gyda pholisïau i gefnogi a diogelu hyn.





## Dyframaethu

Y prif gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu Dyframaethu.




## Gweithrediadau amddiffyn yn nyfroedd Cymru

Y Weinyddiaeth Amddiffyn yw'r adran yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am warchod pobl, tiriogaethau, gwerthoedd a buddion y DU, yn cynnwys Cymru, gartref a thramor – gan wneud cyfraniad sylweddol at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnwys y Llynges Frenhinol, Y Fyddin Brydeinig, y Llu Awyr Brenhinol a'i luoedd wrth gefn (y lluoedd arfog) a'r Fflyd Frenhinol Gynorthwyol.

Defnyddir arfordiroedd a moroedd Cymru ar gyfer amrywiaeth o ddibenion amddiffyn, gan gynnwys gweithrediadau gan y Fyddin a'r Llu Awyr yn bennaf, sy'n cynnwys:

- cefnogi llongau, awyrennau a buddiannau mordwyo;
- cynnal ymarferion hyfforddi milwrol; a
- gweithredu meysydd a chyfleusterau profi a gwerthuso gan gynnwys meysydd tanio taflegrau ac ardaloedd profi systemau awyr di-griw a cherbydau di-griw ar wyneb y dŵr a rhai tanfor.



## Crynodeb Llywodraethu

Ni roddir cydsyniad ar gyfer unrhyw weithgareddau neu gynigion morol yn ardaloedd perygl neu ymarfer y Weinyddiaeth Amddiffyn oni bai bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn fodlon na fydd y gweithgareddau neu'r cynigion yn peri risg annerbyniol i fuddiannau amddiffyn a diogelwch cenedlaethol.

Mae rhai o ardaloedd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cael eu diogelu gan is-ddeddfau (deddfau sy'n berthnasol i ardaloedd penodol yn unig) sydd, at ddibenion diogelwch a rheoli mynediad, yn rhoi'r gallu i'r Weinyddiaeth Amddiffyn wrthod mynediad i bobl a llongau yn ogystal â gwrthod caniatáu i strwythurau gael eu defnyddio yn yr ardaloedd hyn.


Lle defnyddir ardaloedd morol Cymru fel meysydd hyfforddi milwrol, rhaid cael cymeradwyaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.


## Deddfwriaeth a Pholisi

Mae'r cyfrifoldeb am reoli gweithgareddau amddiffyn yng Nghymru wedi'i gadw'n ôl gan Lywodraeth y DU a chânt eu rheoleiddio gan Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Amddiffyn (uwch Weinidog yn Llywodraeth y DU).

Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 yn cydnabod yr angen i'r Weinyddiaeth Amddiffyn gynnal a defnyddio'r gallu gweithredol er mwyn amddiffyn a diogelu'r DU.


Amcan Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019 ar gyfer y sector yw cyfrannu at amddiffyn y genedl drwy sicrhau nad yw gweithgareddau Amddiffyn a Diogelwch Cenedlaethol yn cael eu peryglu.





## Amddiffyn

Y prif gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu'r maes Amddiffyn.



## Carthu a Gwaredu

Carthu yw symud gwaddod o un rhan o'r môr neu wely'r môr i ran arall gan ddefnyddio unrhyw ddyfais.

Mae'r rhan fwyaf o waith carthu yn digwydd mewn basddwr yn agos at y lan.

Mae safleoedd gwaredu morol yn ardaloedd o'r môr sydd wedi'u dynodi i dderbyn gwaddod morol sydd wedi'i garthu o wely'r môr.

## Pam carthu?

Mae carthu yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal datblygiadau mordwyo, peirianneg ac amgylcheddol.

### Gweithrediadau carthu:

**Carthu at ddibenion cyfalaf (ardaloedd nad ydynt wedi'u carthu o'r blaen):**

- at ddibenion mordwyo fel creu neu ehangu sianeli ac ardaloedd porthladdoedd; ac
- at ddibenion peirianyddol fel adeiladu ffosydd ar gyfer pibellau, ceblau a thwneli ac fel y gellir tynnu deunydd o fannau penodol hefyd.

## Ffyrdd o ddefnyddio deunydd carthu:

**Carthu er mwyn cynnal a chadw:**


- tynnu gwaddodion sydd wedi cronni'n naturiol yn ddiweddar i gynnal sianeli, angorfeydd neu waith adeiladu.

**Amddiffyn yr arfordir:**

- defnyddio gwaddodion ar gyfer gweithgareddau fel adfer traethau ac adeiladu llifgloddiau, morgloddiau, glanfeydd ac ati.

**Gwella ecosystemau:**

- tynnu gwaddod halogedig.
- adfer a chreu nodweddion neu gynefinoedd amgylcheddol e.e. creu gwlyptiroedd ac adeiladu/adfer cynefinoedd ynysoedd.



## Crynodeb Llywodraethu

Rhaid cael trwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gweithrediadau carthu a gwaredu, oni bai bod Gorchmynion Harbwr yn galluogi Awdurdodau Harbwr Lleol i wneud gwaith o fewn Terfynau Porthladdoedd – gall fod eithriad yn yr achosion hyn. Rhaid i geisiadau am drwyddedau gael eu hategu gan amryfal asesiadau a chanlyniadau gwaith samplu a dadansoddi er mwyn asesu effeithiau amgylcheddol posibl.

Rhaid i bob gwaddod sydd i'w waredu ar y môr gael ei brofi yn unol â safonau rhyngwladol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi arweiniad ar y dulliau o samplu a phrofi gwaddod. Yn amodol ar ganlyniadau'r samplu, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynu a yw'r gwaddod yn addas i'w waredu yn ôl i'r môr.

Yn ogystal â thrwydded forol, mae'n bosibl y bydd ar ymgeiswyr angen caniatadau eraill hefyd fel caniatâd y tirfeddiannwr (gan Ystad y Goron gan amlaf, neu gan harbwrs neu awdurdodau porthladdoedd, yn dibynnu ar y lleoliad).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am ddatganiadau blynyddol gan ddeiliaid trwyddedau yn nodi'r math o waddod sy'n cael ei waredu bob blwyddyn a'r union faint. Darperir yr wybodaeth hon i CEFAS sy'n rhoi gwybod i OSPAR am leoliad, maint a'r math o waddod wedi'i garthu a gaiff ei waredu ar y môr.

Yn gyffredinol, caiff safle gwaredu ei ddosbarthu fel un 'agored' os yw safle ar gael i'w ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae 'segur' yn cyfeirio at safle nad yw wedi'i ddefnyddio am gyfnod o bum mlynedd, tra bo safle'n cael ei ystyried yn un sydd wedi cau os yw wedi bod yn segur ers 10 mlynedd. Hefyd, gallai Cyfoeth Naturiol Cymru gau safle os yw tystiolaeth newydd yn awgrymu bod gollwng gwaddod yn cael effaith ar yr amgylchedd morol neu ar iechyd pobl neu ei fod yn ymyrryd ag unrhyw ddefnydd cyfreithlon arall o'r môr.

Mae cymhwyso canllawiau hierarchaeth wastraff y llywodraeth yn fodd i leihau unrhyw wastraff sydd i'w waredu ac yn annog defnydd buddiol ohono, er enghraifft i ailgyflenwi gwastadeddau llaid ar gyfer cynefinoedd bywyd gwyllt neu i ail-lenwi'r traethau i amddiffyn yr arfordir neu i adfer tir.

Lle defnyddir ardaloedd morol Cymru fel meysydd hyfforddi milwrol, rhaid cael cymeradwyaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i ymgymryd â datblygiad yn yr ardaloedd hyn.

**CEFAS** – Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu yw arbenigwyr y llywodraeth ym maes gwyddor forol a dŵr croyw. Maen nhw'n darparu data a chyngor i Lywodraeth Cymru.

**Cafodd OSPAR ei greu i alluogi casgliad o lywodraethau, gan gynnwys y DU a'r Undeb Ewropeaidd, i gydweithio er mwyn amddiffyn amgylchedd morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd.**


## Deddfwriaeth a Pholisi

Mae'r gwaith o reoli polisi carthu a gwaredu yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru.

Caiff gweithrediadau carthu a gwaredu eu rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.


Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 yn cydnabod rôl hanfodol carthu a gwaredu ar gyfer cynnal a datblygu mordwyo dirwystr a diogel mewn porthladdoedd, harbwrs a dyfrffyrdd.

Amcan Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019 ar gyfer y sector yw cynnal mynediad mordwyo diogel ac effeithiol ar gyfer morgludiant, pysgota a hamdden a chefnogi twf, mwy o gyfleusterau mewn porthladdoedd a sicrhau ar yr un pryd bod y defnydd cynaliadwy gorau posibl yn cael ei wneud o ddeunydd wedi'i garthu a bod cyfleusterau gwaredu digonol ar gael.



## Carthu a Gwaredu

Y prif gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu gwaith Carthu a Gwaredu.




## Ynni – Carbon Isel

Ynni – Carbon Isel yw ynni sy’n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio adnoddau gwynt, tonnau a llanw (ynni adnewyddadwy morol) a chyfleusterau newydd ar yr arfordir i gynhyrchu pŵer niwclear.

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd. O ganlyniad, bydd angen i ddulliau carbon isel o gynhyrchu ynni ddisodli dulliau carbon uchel hanesyddol lle defnyddid glo a nwy.

Gallai dulliau carbon isel wneud cyfraniad sylweddol at gyrraedd targedau **datgarboneiddio** lle na fydd unrhyw allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) o gynhyrchu trydan erbyn 2050.

**Datgarboneiddio** yw diddymu neu leihau allbwn carbon deuocsid ($CO_2$) i’r atmosffer.




Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch presennol yn digwydd yn ardal forol glannau Cymru ond mae'r dechnoleg yn bodoli ac mae yna ddiddordeb mewn datblygu cynlluniau ar raddfa fwy yn ardal forol môr mawr Cymru, yn enwedig o ran cynhyrchu ynni gwynt. Mae Ystad y Goron wedi dweud bod gan y **Môr Celtaidd** y potensial economaidd i ddarparu ar gyfer hyd at 20 gigawat yn ychwanegol o gapasiti gwynt arnofiol ar y môr mawr erbyn 2045 yn ychwanegol at y 4 gigawat o gapasiti sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Mae'r **Môr Celtaidd** yn ardal o'r Môr Iwerydd i'r de-orllewin o Sir Benfro ac i'r de o Iwerddon, ac mae'n ffinio â Môr Hafren, y Sianel a Môr Gwasgwyn hefyd.




Mae **gwynt ar y môr mawr** yn cyrraedd cyflymder uwch a mwy cyson na gwynt ar y tir. Mae technolegau i gynhyrchu ynni o wynt ar y môr yn cynnwys gosod tyrbinau sefydlog mewn dyfroedd hyd at 60m o ddyfnder neu strwythurau tyrbin arnofiol mewn dyfroedd sy'n fwy na 50m o ddyfnder.

Peiriant sy'n cymryd ynni o lif o aer (gwynt) neu hylif (symudiad dŵr) yw tyrbin. Mae'r tyrbin wedyn yn troi ynni yn drydan.




**Ffrwd lanw** yw corff o ddŵr sy'n llifo'n gyflym ac sy'n cael ei greu gan y llanw. Mae technolegau i gynhyrchu ynni o'r ffrwd lanw yn cael eu datblygu, ac mae dyfeisiau arddangos ar raddfa fach yn cael eu defnyddio. Gellir gosod dyfeisiau naill ai ar wely'r môr, yng nghanol y dŵr neu sy'n codi o wyneb y dŵr.



**Ynni tonnau** yw'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu drwy symudiadau tonnau. Gellir gosod technolegau i gynhyrchu ynni tonnau naill ai ar yr wyneb neu o dan y dŵr.

- **Dyfeisiau ar yr wyneb** – Mae'r dyfeisiau hyn yn cael pŵer wrth i'r tonnau eu symud i fyny ac i lawr ar wyneb y môr.
- **Dyfeisiau tanddwr** – Mae'r dyfeisiau hyn yn amrywio o wrthrychau tebyg i falŵns sydd wedi'u cysylltu i wely'r môr i diwbiau hir sy'n ymestyn dros bellter hir. Pan mae'r tonnau'n achosi iddynt symud, maen nhw'n symud tyrbin ac yn creu trydan.
- **Dyfeisiau cronfeydd dŵr** – Mae'r dyfeisiau hyn yn manteisio ar y tonnau sy'n symud dŵr i mewn i gronfa ddŵr ar yr arfordir. Wrth i ddŵr symud yn ôl allan i'r môr, mae'n cael ei orfodi i lawr tiwb ac yn troi llafnau tyrbin i greu trydan.


Mae trawsnewidyddion ynni'r tonnau a'r llanw wedi'u gosod ger yr arfordir. Mae lleoli trawsnewidyddion yn agos at yr arfordir yn golygu ei bod yn haws eu gosod a'u cynnal a chadw a'i bod yn haws dal a chasglu'r ynni.



Gall **môr-lynnoedd llanw** ddal llawer iawn o ddŵr y tu ôl i strwythur a wnaed gan ddyn, yna caiff y dŵr ei ryddhau i yrru tyrbinau a chynhyrchu trydan. Byddai disgwyl i fôr-lynnoedd llanw fod yn brosiectau hirdymor ar raddfa fawr (120 mlynedd) a sefydlir mewn dyfroedd ger y glannau.

Mae cryn adnodd amrediad llanw ar gael o amgylch arfordir Cymru ond mae yna ansicrwydd economaidd ac amgylcheddol ynghlwm â'r dechnoleg hon.

Ar lefel eang, bydd prosiectau sy'n cefnogi datgarboneiddio yn cyfrannu at wytnwch ecosystemau ehangach drwy helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd



## Crynodeb Llywodraethu

Mae Ystad y Goron yn cyhoeddi “Cytundeb ar gyfer Les” fel y gellir archwilio safleoedd. Os ceir llwyddiant, gellir newid y Cytundeb hwnnw’n les. Yn amodol ar sicrhau’r holl gydsyniadau angenrheidiol. Ar gyfer rhai technolegau newydd (fel technoleg tonnau neu ffrwd lanw) mae Ystad y Goron hefyd yn cynnig opsiwn mwy hyblyg o ddefnyddio Trwydded Arolygu Gwely’r Môr yn unig.

Pan ddefnyddir ardaloedd morol Cymru yn feysydd hyfforddi milwrol, rhaid cael cymeradwyaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

### Prif gydsyniadau ar gyfer prosiect ynni rhwng 1MW – 350MW yn nyfroedd Cymru (ar y glannau neu ar y môr mawr)


| Cydsyniad | Awdurdodaeth | Awdurdod Trwyddedu / Cydsynio | Awdurdod sy’n Awdurdodi Gwaith Morol (ar ôl y penderfyniad) | Awdurdod Gorfodi (Cymru’n unig) |
|---|---|---|---|---|
| Trwydded Forol (Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009) (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017) | Dyfroedd Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gweinidogion Cymru |
| Cydsyniad Ynni Adran 36 o dan y Ddeddf Trydan | Dyfroedd Cymru | Gweinidogion Cymru, ar ôl argymhelliad gan yr Arolygydd Cynllunio | Gweinidogion Cymru | Y Goron (euogfarn ddiannod) |

## Prif gydsyniadau ar gyfer prosiect ynni mwy na 350MW sy’n gyfan gwbl yn nyfroedd glannau neu fôr mawr Cymru

| Cydsyniad | Awdurdodaeth | Awdurdod Trwyddedu / Cydsynio | Awdurdod Cyflawni Gwaith Morol (ar ôl y penderfyniad) | Awdurdod Gorfodi (Cymru yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| Gorchymyn Caniatâd Datblygu (Deddf Cynllunio 2008) (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017) | Dyfroedd Cymru | Yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl argymhelliad gan yr Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol | Cyfoeth Naturiol Cymru (dyfroedd Cymru), yr Ysgrifennydd Gwladol, yr Awdurdod Cynllunio Lleol (pwy bynnag sydd wedi ei bennu i gyflawni’r darpariaethau penodol yn y Gorchymyn) | Y Goron (euogfarn ddiannod neu euogfarn ar dditiad), neu bwy bynnag a bennir yn narpariaethau’r Gorchymyn |
| Trwydded Forol (Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009) (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017) | Môr Mawr Cymru | Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl argymhelliad gan yr Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ‘dybio’ bod trwydded forol os yw seilwaith y prosiect yn gyfan gwbl yn nyfroedd y môr mawr, neu Cyfoeth Naturiol Cymru, os yw datblygwyr yn dewis peidio â chynnwys trwydded forol ‘dybiedig’ fel rhan o broses y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) | Cyfoeth Naturiol Cymru (dyfroedd Cymru) | Gweinidogion Cymru (dyfroedd Cymru) |
| | Glannau Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru | | |

## Prif gydsyniadau ar gyfer prosiect ynni mwy na 350MW sy’n cwmpasu dyfroedd Cymru/Lloegr

| Cydsyniad | Awdurdodaeth | Awdurdod Trwyddedu / Cydsynio | Awdurdod Cyflawni Gwaith Morol (ar ôl y penderfyniad) | Awdurdod Gorfodi (Cymru yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Deddf Cynllunio 2008) (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017) | Dyfroedd Cymru a Lloegr | Yr ysgrifennydd Gwladol, ar ôl argymhelliad gan yr Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol | Cyfoeth Naturiol Cymru (dyfroedd Cymru), yr Ysgrifennydd Gwladol, yr Awdurdod Cynllunio Lleol (pwy bynnag sydd wedi ei bennu i gyflawni’r darpariaethau penodol yn y Gorchymyn) | Y Goron (euogfarn ddiannod neu euogfarn ar dditiad), neu bwy bynnag a bennir yn narpariaethau’r Gorchymyn |
| Trwydded Forol (Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009) (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017) | Dyfroedd Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru (ni ellir ‘tybio’ trwydded forol’) | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gweinidogion Cymru (dyfroedd Cymru) |
| | Dyfroedd Lloegr | Y Sefydliad Rheoli Morol neu’r Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl argymhelliad gan yr Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (os ‘tybir’ bod trwydded forol) | Y Sefydliad Rheoli Morol | Y Sefydliad Rheoli Morol |



## Deddfwriaeth a Pholisi

Mae’r gwaith o hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yng Nghymru wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae’r gwaith o reoleiddio effeithlonrwydd ynni yng Nghymru wedi ei gadw yn ôl i Lywodraeth y DU.

Rheolir cyfeiriad polisi cyffredinol y DU ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr gan Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ddiogelu Ffynonellau Ynni a Sero Net a’r Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (OFGEM).


Ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd Senedd Cymru (corff a etholir yn ddemocrataidd sy’n cynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl) darged sero net ar gyfer 2050.

Mae **sero-net** yn golygu cydbwyso allyriadau nwyon tŷ gwydr â swm y nwyon rydym yn eu tynnu o’r atmosffer.

Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 yn cydnabod bod cyflenwad diogel, cynaliadwy a fforddiadwy o ynni, sy’n dod yn gynyddol o ffynonellau adnewyddadwy morol, yn hollbwysig i les economaidd a chymdeithasol y DU.


Dyma amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2019:

- Cyfrannu’n sylweddol at ddatgarboneiddio ein heconomi ac at ein ffyniant drwy gynyddu maint yr ynni adnewyddadwy morol a gynhyrchir; a
- datblygu Cymru fel esiampl o dechnoleg ynni adnewyddadwy morol drwy ddatblygu’r sylfaen sgiliau, y seilwaith a’r wybodaeth dechnegol hanfodol i gefnogi datblygiad y diwydiant dros yr 20 mlynedd nesaf.




## Ynni – Carbon Isel


Y prif gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu Ynni – carbon isel.



## Cynhyrchu Olew a Nwy

Mae olew a nwy yn cynnwys fforio, datblygu a chynhyrchu adnoddau olew a nwy. Cynhyrchir ynni olew o olew crai a chynhyrchir ynni nwy o nwyon naturiol. Mae'r ddau i'w cael mewn cronfeydd dŵr yn ddwfn o dan y ddaear ac maen nhw'n danwydd ffosil sy'n ffynhonnell ynni na ellir ei hadnewyddu.







Mae gweithgarwch fforio a chynhyrchu olew a nwy yn cynnwys:


- fforio ac arfarnu – ar ôl derbyn trwydded, cynnal profion gyda dril, gwerthuso ffynhonnau ac arolygu.
- datblygu – yn cynnwys gosod cyfleusterau sefydlog neu arnofiol a drilio ffynhonnau. Yn gyffredinol, gosodir piblinell(au) i ddod i'r lan drwy'r seilwaith allforio presennol neu maen nhw wedi'u cysylltu â llongau storio a dadlwytho arnofiol.
- gweithrediadau cynhyrchu ac allforio – yn cynnwys cyflenwi arferol, dychwelyd gwastraff i'r lan, cynhyrchu pŵer, defnyddio cemegion, ffaglu ac awyru, rheoli/ail-chwistrellu dŵr a gynhyrchir a monitro a chynnal cronfeydd dŵr.
- datgomisiynu – gan gynnwys glanhau a chael gwared ar gyfleusterau, er mwyn eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu gwaredu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i symud at system ynni carbon isel ac i gydweithio â Llywodraeth y DU i leihau cynhyrchiant ar y môr mawr lle bo hynny'n bosibl. **Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi rhagor o gloddio am danwyddau ffosil ac osgoi rhagor o ddefnydd ohonynt.**

## Beth yw dal a storio carbon

Yr hyn a olygir gan y term dal a storio carbon yw dal allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) o brosesau diwydiannol, fel cynhyrchu dur a sment, neu o losgi tanwyddau ffosil wrth gynhyrchu pŵer. Yna caiff y carbon hwn ei gludo o'r man y caiff ei gynhyrchu, ar long neu mewn piblinell, a'i storio'n ddwfn o dan y ddaear.

Oherwydd daeareg Cymru, efallai nad oes llawer o gyfleoedd i ddal allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) yn uniongyrchol mewn strwythurau tanddaearol ar y môr mawr yn ardal forol Cymru.



## Crynodeb Llywodraethu

Mae angen cysyniadau rheoleiddio a chymeradwyaeth amgylcheddol priodol ar gyfer seilwaith sy'n gysylltiedig ag olew, nwy, a dal a storio carbon er mwyn sicrhau bod datblygwyr yn ymgynghori â defnyddwyr eraill y môr i ystyried sut y maent yn rhyngweithio ac i geisio osgoi, lleihau neu liniaru eu heffeithiau. Mae hyn yn nodi bodolaeth peryglon a achosir gan y seilwaith a gellir gwneud diweddariadau i siartiau llywio a physgota.

Llywodraeth Cymru sy'n rhoi trwyddedau olew a nwy ar gyfer ardaloedd morol tua thir Cymru a dyfroedd mewnol Cymru (ardaloedd rhynglanwol, aberoedd ac ardaloedd cilfachau arfordirol). Y tu hwnt i'r terfynau hyn yr awdurdod trwyddedu perthnasol yw Awdurdod Pontio Môr y Gogledd.

Mae angen cydsyniad Ystad y Goron, fel arfer drwy les, ar gyfer gosod seilwaith olew a nwy a seilwaith ar gyfer dal a storio carbon (gan gynnwys platfformau tanfor a seilwaith piblinellau) sydd yn nyfroedd glannau Cymru.

Pan ddefnyddir ardaloedd morol Cymru fel meysydd hyfforddi milwrol, rhaid cael cymeradwyaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.


## Deddfwriaeth a Pholisi

Mae polisi olew a nwy wedi ei gadw yn ôl gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'r broses o drwyddedu olew a nwy ar gyfer ardaloedd morol tua thir Cymru ac ar gyfer dyfroedd mewnol Cymru wedi'i datganoli i Lywodraeth Cymru.

Mae polisi Llywodraeth Cymru yn berthnasol i ardaloedd morol tua thir Cymru a dyfroedd mewnol Cymru. Y tu hwnt i'r terfynau hyn, mae polisi olew a nwy wedi'i gadw yn ôl gan Lywodraeth y DU. Mae safbwynt polisi'r DU tuag at olew a nwy domestig wedi datblygu ers cyhoeddi Datganiad Polisi Morol y DU 2011 ac mae bellach yn adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth at sero net drwy ysgogi gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o bob gweithrediad olew a nwy ar y môr mawr.


Ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd Senedd Cymru (corff a etholir yn ddemocrataidd sy'n cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl) darged sero net ar gyfer 2050.

**Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi rhagor o gloddio am danwyddau ffosil ac osgoi rhagor o ddefnydd ohonynt.**




## Ynni – Olew a nwy

Yn cynnwys dal a storio carbon. Y prif gyrff sy’n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu.




**Y prif gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu ar gyfer Dal a Storio Carbon**



## Pysgodfeydd

Mae'r sector Pysgodfeydd yn cynnwys cynaeafu a dal pysgod a physgod cregyn yn fasnachol.


Yng Nghymru, mae'r sector hwn yn cynnwys y canlynol yn bennaf:

- llongau bach (llai na 10 metr o hyd) sy'n gweithredu o fewn 6 milltir fôr i'r arfordir; a
- chasglu â llaw ar dywod rhynglanwol, yn bennaf o amgylch aberoedd. Mae llongau pysgota yn defnyddio technegau fel cewyll/trapio, rhwydo, gwialen a llinell, llusgrwydo a threillrwydo estyllod neu drawst

Mae'r pysgod yn ardaloedd morol môr mawr Cymru yn cael eu dal yn bennaf gan longau mwy o'r DU ac Ewrop.

Mae angen rheoli lefel pysgota mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau nad yw ein moroedd yn cael eu gorbysgota. Gall cyfyngiadau pysgota gynnwys:

- maint rhywogaethau unigol,
- cyfanswm y pwysau o bysgod y gellir eu cadw,
- cyfnodau amser pan ganiateir pysgota,
- ardaloedd caëedig; a
- dulliau neu offer y gellir eu defnyddio i bysgota.



## Crynodeb Llywodraethu


Mae ar bob cwch pysgota masnachol angen trwydded i bysgota yn nyfroedd y DU. Mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am drwyddedu holl gychod pysgota cofrestredig Cymru, ble bynnag y maen nhw'n pysgota. Mae'n ofynnol i bob cwch â thrwydded fasnachol sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru gario dyfais gyda system monitro cychod fel y gellir olrhain a monitro eu gweithgarwch.

Er mwyn rheoli stociau pysgod, bob blwyddyn mewn ymgynghoriad â'r UE a gwladwriaethau arfordirol eraill, bydd cyfanswm y dalfeydd a ganiateir (TACs) yn cael eu pennu i benderfynu ar yr union swm y caniateir ei ddal ar gyfer tua 70 o stociau. Mae'r TACs yn cael eu dyrannu yn gyntaf rhwng gwladwriaethau arfordirol, ac yna'n cael eu dyrannu rhwng gweinyddiaethau pysgodfeydd a sefydliadau cynhyrchwyr y DU yn seiliedig ar ddaliadau cwota hanesyddol. Rheolir nifer fach o'r TACs yn uniongyrchol gan weinyddiaethau pysgodfeydd ar ffurf cronfa ar gyfer y llongau o dan 10 metr neu longau eraill nad ydynt yn y sector. Nid oes TAC wedi'i bennu ar gyfer rhai stociau sy'n arbennig o bwysig i Gymru, fel cregyn moch, cregyn bylchog a chrancod/cimychiaid, a chânt eu hystyried yn stociau nad ydynt ar gwota.

Er mwyn monitro gweithgarwch a dalfeydd pysgota, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn bod 'cofnod dalfa' yn cael ei gyflwyno ar gyfer pob taith bysgota o fewn 24 awr i'r ddalfa gael ei dwyn i'r tir (glanio). Rhaid i'r cofnod gynnwys gwybodaeth am bwysau byw y ddalfa a'r ardal a bysgotwyd. Mae marwolaethau ac anafiadau damweiniol (sgil-ddalfeydd) mewn pysgodfeydd yn fygythiad i gadwraeth a lles mamaliaid morol, rhaid adrodd ar ddata sgil-ddalfeydd hefyd er mwyn nodi a lleihau rhyngweithio pysgodfeydd â rhywogaethau morol sensitif.

Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli pysgodfeydd cocos cyhoeddus o amgylch arfordir Cymru. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli pysgodfeydd cocos Cilfach Tywyn ac Afon Dyfrdwy drwy Orchmynion Rheoleiddio Pysgodfeydd ac mae'n cyflwyno trwyddedau pysgota ar gyfer pysgod dŵr croyw a mudol.

Rhaid i gynhyrchion pysgod fod yn ddiogel i'w bwyta a'u cludo heb blâu a chlefydau. Mae safonau iechyd yn cynnwys gofyniad bod ffynonellau'n cael eu profi a'u categoreiddio a bod gwiriadau cynnyrch yn cael eu gwneud gan nifer o gyrff rheoleiddio.




## Mae polisi pysgodfeydd Cymru wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru


Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 yn rhoi fframwaith y DU ar waith ar gyfer rheoli pysgodfeydd ar ôl gadael yr UE gan gynnwys sefydlu amcanion pysgodfeydd.

Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, yn nodi'r polisïau ar gyfer cyflawni'r amcanion pysgodfeydd, neu ar gyfer cyfrannu at eu cyflawni.

Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 yn cydnabod bod pysgod yn ffynhonnell bwysig o brotein fel rhan o ddeiet iach ac mae'n cydnabod rôl y diwydiant pysgodfeydd o ran sicrhau diogelwch bwyd, cyflogaeth a bod o werth cymdeithasol.


Amcan Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019 ar gyfer y sector yw cefnogi a diogelu sector pysgota cynaliadwy, amrywiol a phroffidiol gan gynnwys hyrwyddo pysgodfeydd dal cynaliadwy a manteisio i'r eithaf ar werth economaidd pysgod sy'n cael eu dal fel cyflenwad o brotein cynaliadwy.





## Pysgodfeydd

Y prif gyrff sy’n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu Pysgodfeydd.



## Porthladdoedd a Morgludiant

Mae porthladdoedd a morgludiant yn weithgareddau ar wahân ond ategol sy'n cwmpasu'r gwaith o adeiladu, gweithredu a chynnal porthladdoedd, harbwrs, a marinas, sy'n:

Cefnogi gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â chargo morgludiant, cludo teithwyr, pysgota, gweithredwyr hamdden a thwristiaeth a gwaith sy'n gysylltiedig â diwydiannau ynni ar y môr mawr.

Mae'r sector porthladdoedd a morgludiant yn rhan hanfodol o economi Cymru, gan ddarparu llwybr pwysig ar gyfer gweithgarwch mewnforio ac allforio'r wlad ac yn seilwaith trafnidiaeth allweddol rhwng tir a môr.
Mae porthladdoedd a morgludiant yn hanfodol o ran symudiad effeithiol cargo, cadwyni cyflenwi a phobl yn y DU a ledled y byd.



## Porthladdoedd

Menter fasnachol yw porthladd sy'n cynnwys cyfleusterau fel craeniau, warysau a dociau. Mae'r rhain yn cefnogi masnach a chludiant, gan ddarparu angorfeydd diogel a chyfleusterau ar gyfer llongau, teithwyr a mewnforio ac allforio nwyddau o weithgarwch morgludiant.

Gall harbwr fod yn ardal o ddŵr a wnaed gan ddyn neu'n ardal gysgodol naturiol o ddŵr, ger y tir, lle gellir docio, angori neu glymu llongau, i gysgodi neu i lwytho a dadlwytho nwyddau neu deithwyr. Mae rhai harbwrs yn cefnogi gweithgareddau masnachol a hamdden.

Defnyddir marina gan gychod bach i ddocio neu angori, fe'u defnyddir fel arfer ar gyfer hamdden personol.

Caiff gweithrediad porthladdoedd, harbwrs a marinas ei alluogi drwy greu a chynnal sianeli, angorfeydd, dociau, pierau, glanfeydd a cheiau.

## Morgludiant

Mae gweithgarwch morgludiant yn cynnwys llwybrau mordwyo sefydledig ar gyfer llongau cargo a llongau teithwyr masnachol a mordwyo eang ar gyfer cychod llai. Ar hyd a lled ardal forol Cymru, mae yna gymhorthion mordwyo fel goleudai, bwiau ac offer telathrebu sydd, ynghyd â'r safonau a osodwyd gan y **Sefydliad Morol Rhyngwladol**, yn hanfodol er mwyn cynnal diogelwch traffig morol.

Y **Sefydliad Morol Rhyngwladol** yw asiantaeth arbenigol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer datblygu safonau a rheoliadau rhyngwladol ar gyfer diogelwch morgludiant ac er mwyn atal llygredd morol gan longau. Mae Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn arwain dirprwyaethau'r DU ym mhwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Sefydliad Morol Rhyngwladol.




## Crynodeb Llywodraethu Porthladdoedd

Mae llywodraethiant y sector porthladdoedd yn amrywiol gan ddibynnu ar natur y porthladd neu'r gweithgarwch morgludiant cysylltiedig. Rheolir porthladdoedd gan Awdurdodau Harbwr Statudol, gyda'u pwerau'n amrywio yn dibynnu ar faint y porthladd a'r math o borthladd, ond fel arfer maen nhw'n cynnwys codi ffioedd ar longau, cynnal seilwaith yr harbwr, cynnal diogelwch mordwyo ac, mewn rhai achosion, carthu'r dyfroedd yn eu hardal. Mae gan Awdurdod Harbwr Cymwys (a fydd yn aml yn Awdurdod Harbwr Statudol hefyd) bwerau peilotiaeth statudol hefyd.

**Peilotiaeth** – Peilot morol medrus sydd â gwybodaeth leol am ardal harbwr sy'n gallu mynd ar fwrdd llongau a'u symud yn ddeheuig drwy ardal Awdurdod Harbwr Cymwys. Mae hyn yn gyffredin i borthladdoedd ar afonydd ac aberoedd lle mae angen gwybodaeth o'r fath er mwyn sicrhau taith ddiogel llong.

Fel arfer rheolir datblygiadau porthladd gan Awdurdodau Harbwr, a all fod angen trwydded forol a/neu gytundeb gan Ystad y Goron a chaniatâd cynllunio hefyd.

Mae'r Cod Diogelwch Morol ar gyfer Porthladdoedd a'i Ganllaw Arfer Da yn gosod safonau diwydiant y DU ar gyfer gweithrediadau morol diogel mewn porthladdoedd a harbwrs.



## Morgludiant

Dylid hysbysu Trinity House ac Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (a'r awdurdod harbwr priodol os yw y tu mewn i derfynau Ardal Harbwr Statudol) am unrhyw waith a allai effeithio ar fordwyo, neu y gellid ei ystyried yn berygl neu'n rhwystr o ran mordwyo, fel rhan o'r broses gydsynio, er mwyn penderfynu a yw'r risgiau'n dderbyniol neu a oes angen mesurau lliniaru, er mwyn sicrhau bod y risg yn cael ei lleihau i Mor Isel ag sy'n Rhesymol Ymarferol (ALARP).

Mae mesurau llwybro a fabwysiadwyd gan y Sefydliad Morol Rhyngwladol wedi'u sefydlu o amgylch Cymru gan gynnwys Cynlluniau Gwahanu Traffig (ardal wedi'i diffinio yn y môr lle caiff mordwyo llongau ei reoleiddio'n llym).

Mae darparu gofod digonol rhwng **gwaelod y llong/cwch a gwely'r môr** yn hanfodol, er mwyn cynnal diogelwch llongau ac er mwyn sicrhau'r cyfle mwyaf posibl i forgludiant fodoli ochr yn ochr â gweithgareddau eraill. Ni ddylai seilwaith statig leihau'r gofod rhwng gwaelod y llong/cwch a gwely'r môr o unrhyw faint sylweddol ar gyfer diogelwch llongau ar hyd llwybrau mordwyo sefydledig.

**Gofod digonol rhwng gwaelod y llong/cwch a gwely'r môr** yw'r dyfnder diogel o ddŵr rhwng cragen llong a gwely'r môr neu berygl tanddwr.

Caiff allyriadau morgludiant eu rheoleiddio a'u gorfodi/plismona gan Arolygu Llongau a Rheolaeth Porthladdoedd Gwladwriaethau cenedlaethol (o dan awdurdod Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn y DU).

Pan ddefnyddir ardaloedd morol Cymru fel meysydd hyfforddi milwrol, rhaid cael cymeradwyaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Polisi a Deddfwriaeth

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i reoleiddio porthladdoedd a harbwrs yng Nghymru; mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys dyletswyddau statudol lleol a chyffredinol, mewn ardaloedd morol ar lannau Cymru (ac eithrio porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl).

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am borthladdoedd ymddiriedolaeth a gediwr yn ôl a pholisi morgludiant. Mae hyn yn cynnwys hawliau a rhyddid mordwyo, polisi morgludiant, llygredd o longau, ymateb i argyfwng morwrol drwy Wylwyr y Glannau Ei Fawrhydi, a harbwrs heb fod yn gyfan gwbl yng Nghymru. Llywodraeth y DU sy'n bennaf gyfrifol am bolisi diogelwch morol.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS) yn gytundeb rhyngwladol sy'n sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer pob gweithgaredd morol.


Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 yn cydnabod bod porthladdoedd a morgludiant yn rhan hanfodol o economi'r DU a'r economi fyd-eang, gan ddarparu'r prif ddull ar gyfer mewnforion ac allforion y wlad a seilwaith trafnidiaeth allweddol rhwng y tir a 'r môr.

Amcan Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019 ar gyfer y sector yw diogelu llwybrau morgludiant sefydledig a chefnogi datblygiad cynaliadwy yn y sector morgludiant a phorthladdoedd.



## Porthladdoedd a morgludiant

Y prif gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu Porthladdoedd a Morgludiant.



## Ceblau Tanfor

Mae'r sector ceblau tanfor yn cynnwys gosod, cynnal a chadw, a datgomisiynu ceblau tanfor.

### Mae ceblau'n cynnwys:

- **Telathrebu:** Gan gynnwys gwybodaeth ddigidol. Mae'r ceblau hyn tua 55mm mewn diamedr.
- **Trosglwyddo trydan:** Cludo trydan o un lle i'r llall, gan gynnwys **rhyng-gysylltwyr**. Mae'r ceblau hyn tua 350mm mewn diamedr.

> Mae rhyng-gysylltwyr yn geblau foltedd uchel a ddefnyddir i fewnforio ac allforio trydan rhwng gwledydd cyfagos. Mae nifer y rhyng-gysylltwyr a chyfanswm capasiti rhyng-gysylltwyr yn y DU yn debygol o gynyddu er mwyn masnachu trydan rhwng gwledydd er mwyn amrywio ffynonellau cyflenwi ac ymdopi ar adegau pan fo'r galw am gyflenwad o drydan ar ei anterth.

- **Trosglwyddo allforion trydan:** Cludo trydan o orsafoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy morol i is-orsafoedd ar y tir.

Er mwyn sicrhau bod y cyflenwad trydan a'r adnoddau cyfathrebu yn ddibynadwy ac yn ddiogel, nid yw llwybrau ceblau'n cael eu gosod yn agos at ei gilydd fel rheol. Mae'r diwydiant ceblau yn rhannu gofod morol gydag amrywiaeth o weithgareddau eraill a allai o bosibl niweidio ceblau tanfor (e.e. piblinellau olew a nwy, echdynnu agregau, pysgota ac angori llongau, a charthu sianeli morgludiant).

Gellir lliniaru'r risgiau hyn drwy gynllunio a chydweithredu'n ofalus rhwng sectorau. Mae difrod i geblau yn ddrud, gall gymryd llawer o amser i'w hatgyweirio a gall amharu'n sylweddol ar ddosbarthu pŵer a chyfathrebu.

Felly, mae'n hanfodol bwysig bod seilwaith ceblau sefydledig wedi'i ddiogelu'n ddigonol, ac mae er budd y gweithredwr ceblau i nodi lleoliadau ceblau fel y gall gweithgareddau eraill eu hosgoi.

## Crynodeb Llywodraethu

Mae trefniadau llywodraethu yn dibynnu ar y math o gebl a'i leoliad.

Mae caniatâd i osod ceblau trydanol o orsafoedd cynhyrchu trydan yn cael ei rannu rhwng Gweinidogion Cymru (capasiti cynhyrchu llai na 350 megawat) a Llywodraeth y DU (dros 350 megawat). Fel arfer, mae angen Gorchymyn Cydsyniad Datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ar gyfer rhyng-gysylltwyr amlbwrpas, gyda phenderfyniad yn cael ei wneud gan Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net.

Caiff ceblau telathrebu eu rheoleiddio gan OFCOM.

Mae Ystad y Goron yn rhoi hawliau tirfeddiannwyr ar gyfer gosod, cynnal a chadw, a defnyddio ceblau trosglwyddo pŵer a thelathrebu yn ardal forol glannau Cymru.

Mae Ystad y Goron hefyd yn rhoi hawliau i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr a cheblau trosglwyddo a dosbarthu trydanol yn ardaloedd morol môr mawr Cymru.


Mae angen trwydded fyrdymor (o dan 12 mis fel arfer) oddi wrth Ystad y Goron ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rhyng-gysylltwyr yn ardaloedd morol glannau Cymru, gan roi'r hawl i gynnal arolygon, gosod ceblau ac ati. Dilynir hyn gan gytundeb opsiwn (cytundeb ar gyfer les). Nid oes angen unrhyw hawliau gan Ystad y Goron i ddefnyddio'r tir ar gyfer cynigion rhyng-gysylltwyr yn ardaloedd morol môr mawr Cymru.

Mae angen trwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru i osod a thynnu ceblau tanfor yn ardaloedd morol glannau Cymru. Efallai y bydd angen trwydded forol ar gyfer gosod a thynnu ceblau tanfor ar fôr mawr Cymru.

Bydd ceblau trydan sy'n mynd drwy fwy nag un awdurdodaeth genedlaethol yn gofyn am ddeialog drawsffiniol ar lwybrau a thrwyddedu. Adran Diogelwch Ynni a Sero Net y DU yw'r Awdurdod Cymwys Cenedlaethol dynodedig ar gyfer y prosiectau hyn, ar wahân i geblau sydd wedi'u lleoli yn nyfroedd Cymru nad ydynt yn cynnwys rhannau eraill o'r DU. Ar gyfer y prosiectau hyn, dirprwywyd rhai pwerau i Weinidogion Cymru fel yr Awdurdod Cymwys Cenedlaethol.

Wrth weithredu ger cebl a gofnodwyd, mae'n drosedd o dan gyfraith y DU a chyfraith ryngwladol i ddifrodi cebl naill ai'n fwriadol neu drwy esgeuluso cyfrifoldeb.

Pan ddefnyddir ardaloedd morol Cymru fel meysydd hyfforddi milwrol, rhaid cael cymeradwyaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.




## Deddfwriaeth a Pholisi

Mae'r pŵer i roi cydsyniad ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y tir ac ar y môr (a cheblau trydanol cysylltiedig) o dan 350 megawat yng Nghymru yn nwylo Llywodraeth Cymru, ac yn nwylo Llywodraeth y DU ar gyfer gwaith dros 350 megawat. Yn gyffredinol, mae cyfeiriad polisi'r DU ar ynni (h.y. ceblau trydanol a rhyng-gysylltwyr amlbwrpas) yng Nghymru yn nwylo Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net a'r Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (OFGEM). Ar gyfer telathrebu (OFCOM), mae yn nwylo'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.


Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 yn cydnabod bod ceblau tanfor yn rhan o asgwrn cefn seilwaith pŵer, gwybodaeth a thelathrebu rhyngwladol y byd, ac maen nhw'n hanfodol i'r DU yn gymdeithasol ac yn economaidd. Bydd twf mewn ynni adnewyddadwy morol ar y môr mawr yn gofyn am gysylltiad cebl trydanol o'r môr i'r rhwydwaith gridiau ar y tir.

Amcan Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019 ar gyfer y sector yw helpu i ddosbarthu trydan yn y ffordd orau bosibl ac i gyfathrebu'n well yn fyd-eang drwy dwf rhwydweithiau cyfathrebu digidol.



## Ceblau tanfor

Y prif gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu Ceblau tanfor.



## Trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff

Mae rheoli dŵr wyneb a dŵr gwastraff yn cynnwys ei gasglu, ei gludo, ei drin a'i waredu. Mae'n cynnwys carthffosydd, gwaith trin carthion, elifiant diwydiannol, a gorlifoedd carthffosydd cyfunol. Dŵr ffo wyneb yw'r dŵr glaw sy'n llifo o doeau, priffyrdd ac ardaloedd palmantog i'r system garthffosiaeth gyhoeddus.

Mae'r gwaith o reoli dŵr wyneb a dŵr gwastraff yn hanfodol i gefnogi adnoddau naturiol a sectorau a gweithgareddau dynol eraill sy'n dibynnu ar ddyfroedd arfordirol a morydol iach a glân. Gall effeithiau ar ansawdd dŵr lleol fod â goblygiadau sylweddol i sectorau eraill fel twristiaeth, hamdden, pysgodfeydd, a dyframaethu.



## Crynodeb Llywodraethu

Mae'n rhaid cael trwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chaniatâd tirfeddiannwr (gan Ystad y Goron gan amlaf) ar gyfer, holl seilwaith dŵr a dŵr gwastraff mewn ardaloedd morol ar y glannau yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith dŵr gwastraff yng Nghymru o dan berchenogaeth a rheolaeth cwmni nid-er-elw Dŵr Cymru ac mae ardal gyflenwi carthffosiaeth y cwmni yn cynnwys holl arfordir Cymru. Mae carthion domestig a gwastraff masnach yn cael eu trin naill ai mewn gweithfeydd cyhoeddus neu breifat ac mae'n destun trefn gydsynio a weinyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn eu gollwng naill ai i'r system garthffosiaeth neu (yn llai cyffredin) yn uniongyrchol i'r amgylchedd.

Mae'r sector trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff yn cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n gweithredu gwahanol reoliadau sy'n gysylltiedig â Thrin Dŵr Gwastraff Trefol, Dyfroedd Pysgod Cregyn a Dyfroedd Ymdrochi.

Mae systemau trin dŵr yn cael eu datblygu i raddau helaeth mewn ymateb i anghenion rheoleiddio, safonau ansawdd dŵr sy'n newid, ac ystyriaethau iechyd cyhoeddus sy'n deillio'n bennaf o ffactorau ar y tir fel newidiadau yn nifer neu ddosbarthiad pobl neu gynnydd yn y dŵr ffo wyneb.

Er mwyn rheoli risg llifogydd, yn 2019 cyflwynodd Llywodraeth Cymru y gofyniad bod yn rhaid i ddatblygiadau newydd o 10 neu ragor o gartrefi, adeilad masnachol mawr, neu ddatblygiad defnydd cymysg gynnwys strategaeth ddraenio gynaliadwy fel rhan o gynigion cynllunio.

Lle defnyddir ardaloedd morol Cymru fel meysydd hyfforddi milwrol, rhaid cael cymeradwyaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Deddfwriaeth a Pholisi

Mae'r gwaith o reoli dŵr wyneb a thrin a gwaredu dŵr gwastraff yn ardaloedd morol y glannau yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru.


Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 yn cydnabod, er mwyn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy gan gynnwys iechyd a lles y gymuned a diogelu'r amgylchedd, mae angen cynnal a datblygu systemau polisi a rheoleiddio sy'n rheoli a thrin dŵr wyneb a dŵr gwastraff mewn ffordd fodern o ansawdd uchel.

Amcan Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019 ar gyfer y sector yw diogelu'r gallu i drin a gollwng dŵr ffo wyneb a dŵr gwastraff yn ddiogel ac yn effeithiol.



## Trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff

Y prif gyrff sy'n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu Dŵr Gwastraff.



## Y Sector Twristiaeth a Hamdden

**Twristiaeth** yw pobl yn teithio i lefydd sydd y tu allan i'w hamgylchedd arferol ac yn aros ynddynt ar gyfer hamdden, busnes neu ddibenion eraill. Mae'n cynnwys gweithgareddau, gwasanaethau a seilwaith sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr a phobl sydd ar eu gwyliau.

Mae twristiaeth yn ddiwydiant eang ac amrywiol sy'n cynnwys llawer o wahanol fusnesau gan gynnwys lletygarwch (bwyd, diod, llety), trafnidiaeth (rheilffyrdd, ffyrdd, dŵr, a rhwydweithiau awyr), gwasanaethau teithio, gwasanaethau diwylliannol (e.e. amgueddfeydd, atyniadau), gweithgareddau chwaraeon, a gwasanaethau manwerthu.

**Hamdden** yw gweithgaredd nad yw'n waith a wneir i gael mwynhad. Mae gweithgareddau hamdden yn amrywiol ac nid yw'n hawdd eu categoreiddio. Maen nhw'n amrywio o weithgareddau ffurfiol y mae angen cyfarpar neu gyfleusterau arbenigol ar eu cyfer (e.e. deifio scuba) i weithgareddau anffurfiol fel cerdded neu gael picnic.

Mae twristiaeth a hamdden yn gwneud cyfraniad sylweddol iawn at economi, lles, iechyd, datblygiad, ac ansawdd bywyd Cymru. Mae lefel y gweithgarwch twristiaeth neu hamdden morol neu sy'n gysylltiedig â'r arfordir ar ei uchaf gerllaw'r arfordir neu ar y glannau ac mae'n gostwng yn gyflym wrth fynd ymhellach allan i'r môr.



## Crynodeb Llywodraethu

Yn wahanol i sectorau eraill, nid oes angen awdurdod na thrwydded ar dwristiaeth a hamdden i raddau helaeth. Yr eithriadau yw strwythurau neu ddatblygiadau arfaethedig ar yr arfordir ac ar y môr (e.e. adeiladu neu gynnal seilwaith), a gall rhai ohonynt fod yn gysylltiedig yn llwyr neu'n rhannol â gweithgarwch twristiaeth a hamdden. Gall fod ar y rhain angen caniatâd fel trwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu ganiatâd cynllunio.

Mae'r sector twristiaeth a hamdden yn elwa ar amgylchedd o ansawdd uchel. Mae cynlluniau'r Faner Las a Gwobrau Cyrchfannau Glan Môr yn gosod safonau ar gyfer traethau cyhoeddus gan gynnwys meini prawf yn ymwneud ag ansawdd dŵr, diogelwch, a chyfleusterau, yn ogystal â rheoli gweithgareddau hamdden ar y tir a'r dŵr er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng gweithgareddau anghydnaws.

Mae Cymru wedi arwain y ffordd wrth ymgysylltu â'r sector twristiaeth a hamdden wrth reoli a lliniaru effeithiau posibl, fel drwy God Morol a Siarter Awyr Agored Sir Benfro, Eryri Bywiol, Darparwyr Gweithgareddau De Cymru a Chymdeithas Twristiaeth Anturiaeth Cymru.

Gall pysgota hamdden ddigwydd yn unrhyw le ar y môr bron (ac eithrio lle mae'r gyfraith yn cyfyngu ar hynny) heb drwydded. Mae pysgodfeydd sy'n cael eu rheoli gan Orchymyn Rheoleiddio Pysgodfa (er mwyn gwella rheolaeth pysgodfeydd pysgod cregyn naturiol) yn cyfyngu pysgota i ddeiliaid trwydded yn unig.


## Deddfwriaeth a Pholisi


Mae rheoli twristiaeth a hamdden yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru.

Mae Deddf Pysgod a Bywyd Gwyllt 1956 yn manylu ar hawliau i bobl bysgota er mwynhad a chynnal a chynyddu cyfleoedd cyhoeddus i ddefnyddio adnoddau pysgod a bywyd gwyllt at ddibenion hamdden.

Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 yn cydnabod bod twristiaeth a hamdden yn weithgareddau pwysig iawn o ran yr economi a swyddi, sydd â lle i dyfu o fewn terfynau amgylcheddol ac a all wella cystadleurwydd.

Amcan Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019 ar gyfer y sector yw cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy drwy ddiogelu a hyrwyddo mynediad i'r arfordir a gwella ansawdd profiad ymwelwyr, gan gynyddu enw da Cymru fel cyrchfan twristiaeth a hamdden forol a chynaliadwy o'r radd flaenaf.





## Twristiaeth a hamdden

Y prif gyrff sy’n ymwneud â gweinyddu a thrwyddedu Twristiaeth a Hamdden.

